# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Ionawr 2019

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Steve George**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDGCh@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Gwaith craffu blynyddol ar Amgueddfa Cymru

(09.30 - 10.30) (Tudalennau 1 - 16)

David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol

Neil Wicks, Dirprwy Gyfarwyddwr a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol

Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu

## 3 Cefnogi a hybu'r Gymraeg: Ymchwiliad i'r cyd-destun deddfwriaethol a pholisi ac yn ehangach: Sesiwn dystiolaeth 10

(10.30 - 11:30) (Tudalennau 17 - 30)

Gwyneth Ayers, Rheolwr Partneriaeth a Pholisi Corfforaethol, Cyngor Sir Caerfyrddin

Lyndon Puddy, Pennaeth Uned Gefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen

Sioned Wyn Davies, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Cwsmeriaid, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## 4 Papurau i’w nodi

**5 Ymateb gan Gyfarwyddwr Cyffredinol BBC Cymru Wales: Cyfleoedd i awduron ac actorion Cymru**

(Tudalennau 31 - 33)

**6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:**

**7 Ôl-drafodaeth breifat**

(11:30 - 12:00)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Amgueddfa Cymru**

**Diweddariad ar gyfer y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Ionawr 2019**

# Llwyddiannau yn 2018

### Twf mewn Niferoedd Ymwelwyr

Croesawom 1,800,000 o ymwelwyr i'n saith amgueddfa genedlaethol yn 2017-18 gyda 42% ohonynt yn dod o du hwnt i Gymru. Dyma'r nifer mwyaf o ymwelwyr ers sefydlu'r Amgueddfa ym 1907 ac roedd yn gynnydd o 101.7% ers 2001, pan gyflwynwyd polisi mynediad am ddim Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â hyn cyrhaeddwyd dros 150,000 o ddilynwyr ar Facebook, Twitter a YouTube, ac edrychodd 1.6 miliwn o bobl ar bron i 6.2 miliwn o dudalennau ar ein gwefan.

### Ailddatblygiad Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

Lansiwyd ailddatblygiad Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru ym mis Hydref, prosiect a wnaed yn bosibl diolch i gefnogaeth helaeth gan Gronfa Treftadaeth y Loteri a Llywodraeth Cymru.

Roedd pobl ledled Cymru yn rhan o'r ailddatblygiad, wrth ddylunio tair oriel newydd ac ail-greu'r llys canoloesol, Llys Llywelyn - gan greu hanes gyda'r cyhoedd yn hytrach nac ar eu cyfer, a hwyluso mynediad pobl at eu hawliau diwylliannol. Buom hefyd yn cydweithio ag artistiaid, crefftwyr, pobl ifanc, academyddion a grwpiau cymunedol i ail ddylunio'r Amgueddfa.

Codwyd £960,000 ar gyfer apêl codi arian cyfalaf Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, gan gynnwys buddsoddiad gan Sefydliad Garfield Weston, Sefydliad Foyle a Sefydliad Moondance. Roedd agoriad siop a bwyty newydd yn Sain Ffagan hefyd yn rhan o'r ailddatblygiad.

Daeth miloedd o ymwelwyr i'r Amgueddfa yn ystod y penwythnos cyntaf ac mae'r orielau wedi derbyn ymateb cadarnhaol. Mae ymwelwyr wedi mwynhau gweithgareddau yn yr orielau, ac ymateb yn dda i'r cynnwys, ac maent eisoes yn darparu adborth. Mae Sain Ffagan eisoes wedi ennill sawl gwobr gan gynnwys gwobr Twristiaeth a Hamdden RICS Cymru a Chymeradwyaeth Uchel ledled y DU; Gwobr Crefftwyr neu Brentisiaid Gorau, Gwobrau Angel Treftadaeth Cymru a'r Ailddatblygiad o Adeilad Hanesyddol gorau dros £5 miliwn, Gwobrau Angel Treftadaeth Cymru.

### Digwyddiadau ac Arddangosfeydd

Cynhaliwyd 29 o arddangosfeydd a 13 arddangosiad yn ein hamgueddfeydd a gyda'n sefydliadau partner, gan adrodd straeon ysbrydoledig a dathlu iaith a diwylliant byrlymus ein cenedl.

Buom yn gweithio gydag Asiantaeth Ddiwylliannol Llywodraeth Japan ac Amgueddfa Genedlaethol Hanes Japan i ddod a *Kizuna: Dylunio Japan Cymru* i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn haf 2018. Arddangosfa fawr o gelf a dylunio Japaneaidd oedd *Kizuna* - yr un mwyaf o'i math y tu allan i Lundain - a lwyddodd i ddenu bron i 60,000 o ymwelwyr yn ystod cyfnod o 12 wythnos.

Dathlwyd 25 mlynedd ers sefydlu ein partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Derek Williams gyda *Penderfyniad Pwy?,* arddangosfa fawr o gelf gyfoes mewn partneriaeth gydag elusen digartrefedd The Wallich. Cafodd yr arddangosfa arloesol ei churadu gan 12 o fenywod a dynion sydd wedi profi digartrefedd yng Nghymru, gan ddenu dros 91,000 o ymwelwyr.

Yn berthnasol i #MeToo, *Merched a Ffotograffiaeth* oedd yr arddangosfa ffotograffiaeth ar gyfer ein horiel ffotograffiaeth barhaol newydd, oedd yn canolbwyntio ar sut y defnyddiwyd ffotograffiaeth i gamliwio merched trwy eu gwrthrycholi a'u delfrydu.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd gweithiodd Amgueddfa Cymru mewn partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Casgliad y Werin Cymru, Amgueddfa Stori Caerdydd, Archifdy Morgannwg ac eraill i ddod â straeon a gwrthrychau Bae Caerdydd yn fyw i ymwelwyr.

Datblygwyd Strategaeth Digwyddiadau a Chynllun Gweithredu ar gyfer 2018-23. Roedd rhaglenni llwyddiannus yn cynnwys: dathliadau Diwali, Mis Hanes Pobl Dduon Cymru, Pride ac LGBT+; roedd rhaglenni newydd yn cynnwys Disgo Tawel a digwyddiadau Dros Nos; yn ogystal ag ail gyflwyno nosweithiau Nadolig a Chalan Gaeaf yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.

**Partneriaethau a Chyfranogiad**

Rydym wedi gweithio ar y cyd â thros 120 o elusennau a sefydliadau sector cyhoeddus. Mae gweithio ar y cyd yn ein galluogi i ganolbwyntio ar anghenion hirdymor, gan sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol er budd pobl Cymru.

Rydym yn bartner diwylliannol allweddol ac yn ddarparwr rhaglen *Cyfuno: creu cyfleoedd trwy ddiwylliant* lle buom yn gweithio gydag amrywiaeth enfawr o bartneriaid gan gynnwys wyth awdurdod lleol. Roeddem hefyd yn un o ddeuddeg o sefydliadau ledled y DU i dderbyn arian gan y Loteri Genedlaethol trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri i ddatblygu *Tynnu'r Llwch*, rhaglen pum mlynedd i gynyddu ymgysylltiad ieuenctid â threftadaeth yng Nghymru.

Agorwyd Ystafell Ymlacio yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a gafodd ganmoliaeth arbennig yng ngwobrau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Ysbrydolwyd y cysyniad gan wirfoddolwr yn ei arddegau sydd ag awtistiaeth, ac mae'r gofod yn creu cyfle i bobl gymryd hoe, ymlacio a theimlo'n llonydd.

**Dysgu am Oes**

Rydym yn parhau fel darparwr addysg tu allan i'r ystafell ddosbarth mwyaf Cymru, gan groesawu 187,249 o ddisgyblion a myfyrwyr a thros 420,995 o ddysgwyr anffurfiol yn 2017/18.

Lansiwyd *Ar Lafar* yn Amgueddfa Lechi Cymru, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, sef gŵŷl i bobl sy'n dysgu Cymraeg a ddatblygwyd ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Cymerodd 635 o ddysgwyr ran yn yr Ŵyl, sydd bellach wedi ennill ei phlwyf yn y rhaglen flynyddol.

Mae ein rhaglen addysg ddigidol fywiog yn cyrraedd dros 192,000 o ddefnyddwyr. Ymhlith y profiadau digidol dwyieithog newydd mae iBook dwyieithog yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru a Rhithdaith Danddaearol Google yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru. Cafodd ei chreu yn rhan o raglen rhithdeithiau Google sydd â'r nod o gyrraedd 1 miliwn o blant ysgol ledled y DU. Defnyddiwyd y Rhithdaith i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol i baratoi ar gyfer eu hymweliad dan ddaear, a dyma'r daith gyntaf o'i math i gael ei chreu yn y Gymraeg.

Yn ogystal â hyn datblygwyd ein rhaglen Blynyddoedd Cynnar ar gyfer plant dan bump oed er mwyn cefnogi teuluoedd sydd dan anfantais, yn enwedig teuluoedd sy'n byw yn yr Ardaloedd Arloesi.

**Cynhyrchu Incwm a Chodi Arian**

Buom yn parhau i amrywio ein cyllid drwy ymchwil, codi tâl, elw cwmni masnachol a refeniw codi arian gan arwain at 46% o gynnydd cyffredinol yn ein hincwm net, gyda £1.9 miliwn o roddion.

Mae ein rhaglen ar gyfer Ymwelwyr Llongau Mordaith yn mynd o nerth i nerth yn Amgueddfa Lechi Cymru, gyda 1,200 o bobl yn ymweld o'r MV Corinthian. Cafodd teithwyr brynnu pecyn croeso personol oedd yn cynnwys pryd bwyd chwarelwr, cyflwyniad am hanes y gymuned a chyfle i gwrdd ag un o chwarelwyr yr Amgueddfa.

**Ymchwil a Chadwraeth**

Yn y 10 mlynedd diwethaf, mae ein gwyddonwyr wedi darganfod dros 400 o rywogaethau byw a diflanedig mewn dros 65 o wledydd.

Ar hyn o bryd mae gennym 68 o brosiectau arloesol ar y gweill ym meysydd y gwyddorau naturiol, celf, hanes a'r gwyddorau cymdeithasol.

Ymhlith ein 5 miliwn o wrthrychau a threftadaeth anniriaethol mae un o'r casgliadau gorau o gelf Argraffiadol tu hwnt i Baris.

**Cefnogi Sgiliau a Gwirfoddoli**

Penodwyd pedwar prentis mwyngloddio newydd yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, gan gynnwys tywysydd benywaidd cyntaf y safle; cefnogwyd prentisiaethau crefft yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru a phenodwyd gof yn Amgueddfa

Lechi Cymru.

Rhoddodd dros 700 o wirfoddolwyr 29,000 o oriau o’u hamser. O’r rhain mae 42% dan 25 oed ac mae 4% o’n gwirfoddolwyr newydd yn nodi eu bod o gefndir du, Asiaidd neu o leiafrifoedd ethnig.

Mae 8% o’n gwirfoddolwyr yn nodi fod ganddynt anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol. Gweithiwyd gyda sefydliadau megis Cymdeithas Syndrom Down a Chymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru i sicrhau fod ein rhaglen wirfoddolwyr yn fwy hygyrch. Yn Ebrill 2018 roedd yr Amgueddfa yn llwyddiannus gyda dyfarniad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr am ein gwaith rhagorol wrth weithio gyda gwirfoddolwyr.

## Beth sydd gan 2019 i’w gynnig?

### Dysgu am Oes

Rydym yn datblygu rhaglenni ac adnoddau i gefnogi’r cwricwlwm newydd sydd ar y gweill ac rydym yn datblygu perthynas newydd gyda chyrsiau Tystysgrif Addysg Uwchraddedig ledled Cymru. Rydym yn gobeithio lansio Adroddiad Sgiliau yn 2019 a byddwn yn parhau gyda rhaglen prentisiaeth Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru.

### Gwerthuso

Byddwn yn cynnal gwerthusiad manwl o ailddatblygiad Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru i sicrhau bod y gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu gyda'r sector ehangach. Byddwn hefyd yn ail-frandio Gŵyl Fwyd Sain Ffagan i ddathlu ei phen-blwydd yn 10 oed ac yn cynnig cyrsiau crefft ar draws Amgueddfa Cymru.

### Iechyd a Lles

Mae Amgueddfa Cymru yn rhan o ymgyrch Amser Newid Mind Cymru ac rydym wrthi’n datblygu cyfres o raglenni i gefnogi lles staff. Byddwn hefyd yn ymgeisio am gyllid ychwanegol i gefnogi rhaglenni iechyd a lles newydd. Rydym yn gweithio ar gais Buddsoddwyr Mewn Pobl a chawsom ymateb gan 69% o staff. Mae 28 aelod o staff ar draws Amgueddfa Cymru yn awr yn gweithio ar y cyd i ddatblygu Cynllun Gwaith ar gyfer y sefydliad.

### Effaith Economaidd

Mae pob £1 a fuddsoddir gan Lywodraeth Cymru yn Amgueddfa Cymru yn cynhyrchu £4 o wariant ychwanegol yng Nghymru. Dyma'r cyfraniad uchaf gan unrhyw sefydliad diwylliannol sydd wedi'i ariannu'n gyhoeddus yng Nghymru, gan gyfrannu £83 miliwn o Werth Ychwanegol Crynswth (GYC) i economi Cymru. Mae nifer yr ymwelwyr o'r tu allan i Gymru wedi cynyddu o 37% yn 2012 i 42% yn 2018. Yn sgil y gwaith adeiladu ar gyfer ailddatblygiad Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, mae’r Amgueddfa wedi cyfrannu £27 miliwn o fusoddiad cyffredinol at economi Cymru a’r DU.

**Arddangosfeydd**

Gan adeiladu ar ein gwaith ffotograffiaeth yng Nghymru rydym yn cynllunio tymor ffotograffiaeth mawr. Bydd hyn yn cynnwys y ffotograffwyr rhyngwladol enwog Martin Parr, Ernst a Hilla Becher ac Awst Sander ar gyfer Hydref 2019.

*David Nash: Cerflunwaith Drwy'r Tymhorau* fydd arddangosfa unigol gyntaf David yng Nghymru, fydd yn pwysleisio pwysigrwydd Capel Rhiw fel stiwdio ac amgylchedd i gerfluniau Nash.

Mae Fossil Swamp Amgueddfa Cymru wedi bod yn gweithio gyda Grŵp Treftadaeth Brymbo am flynyddoedd i ddiogelu darganfyddiadau ffosil o'r radd flaenaf o safle Gwaith Dur Brymbo. Bydd yr arddangosfa yn pwysleisio pam fod angen defnyddio ffynonellau egni mwy cynaliadwy, wrth weithio gyda'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Amgylchedd i gefnogi'r llywodraeth a Gweledigaeth Amgueddfa Cymru.

Byddwn yn croesawu ein harddangosfa codi tal i deuluoedd, *Nadroedd*, yn haf 2019.

*Leonardo 500* - Yn 2019, i nodi 500 mlynedd ers marwolaeth Leonardo, mae'r Ymddiriedolaeth Casgliad Brenhinol wedi trefnu rhaglen lle byddant yn benthyg 12 llun Leonardo i 12 o sefydliadau ar draws y DU. Codir tâl ar gyfer yr addangosfa hon.

Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe yn gweithio ar eu harddangosfa *1918: Dychwelyd i Heddwch* sy'n canolbwyntio ar ddiwydiant ar ddiwedd y rhyfel.

Mae Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yn gweithio gyda cymunedau lleol ar gyfer digwyddiad ym mis Chwefror 2019 i goffáu Dawns Buddugoliaeth a gynhaliwyd yn Sefydliad Oakdale yn 1919.

Yn 2019 byddwn yn cyflwyno arddangosfa Blwyddyn Darganfod yn Oriel Y Parc gan ddefnyddio casgliadau archaeoleg, daeareg a chelf Amgueddfa Cymru i archwilio hanes Sir Benfro, newid yn yr hinsawdd a pherchenogaeth ddiwylliannol. Byddwn hefyd yn datblygu partneriaeth ar y cyd tair blynedd gyda PCNPA, OyP a rhanddeiliaid lleol, gyda'r bwriad o ddatblygu cynulleidfaoedd newydd a sicrhau fod ymgysylltu â'r gymuned wrth galon rhaglen OyP.

Byddwn yn gweithio ar y cyd ag Amgueddfa Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gynhyrchu arddangosfa ynglŷn â dylunio Mantell Aur yr Wyddgrug. Mae Mantell Aur yr Wyddgrug yn fantell aur seremonïol unigryw, a wnaed yn ystod Oes yr Efydd tua 3,700 o flynyddoedd yn ôl. Bydd yr arddangosfa hon yn canolbwyntio ar ganfyddiadau archeolegwyr arbrofol ynglŷn â sut y dyluniwyd y fantell sy'n rhan o archaeoleg Cymru.

Hen Goleg Aberystwyth: Bydd yr arddangosfa hanes naturiol hynod boblogaidd *Mwydod! Y Da, Y Drwg a'r Hyll* yn cael ei gyflwyno yn Hen Goleg Prifysgol

Aberystwyth ym mis Ebrill 2019, i gefnogi cais Cronfa Dreftadaeth y Loteri i greu oriel amgueddfa safonol ac rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu ein perthynas â'r brifysgol ymhellach.

Byddwn yn gweithio gydag Amgueddfeydd Cas-gwent a'r Fenni i gefnogi rhaglenni yn y dyfodol ac yn archwilio ffyrdd newydd o weithio gydag amgueddfeydd ac orielau yng Nghymru gyda Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru.

Gan adeiladu ar y berthynas gref rhwng Amgueddfa Cymru a Japan, rydym yn anelu at lansio arddangosiad delwedd ddigidol o *Bapurau Mwyngloddio Glo unigryw Sakubei Yamamoto*, fydd yn cael eu harddangos yn Big Pit yn 2019-2020.

**Cynhyrchu Incwm a Chodi Arian**

Yn 2017/18 - y flwyddyn ariannol lawn ddiwethaf - allan o gyfanswm o £36.6 miliwn mewn incwm, cododd yr Amgueddfa £9.5 miliwn o bob ffynhonnell nad yw'n grant (gan gynnwys trosiant cwmni masnachu, rhoddion cyfyngedig a rhoddion anghyfyngedig a nawdd). Roedd hyn yn cynnwys incwm refeniw net anghyfyngedig, sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau craidd yr Amgueddfa, sef £1.25m (gan gynnwys ymchwil a chodi tâl, elw a chodi arian cwmni masnachol a chodi arian refeniw). Mae hyn yn gynnydd o 46% ar 2016/17, gan adlewyrchu ymdrechion yr Amgueddfa i ehangu ei gweithgareddau cynhyrchu incwm. Mae'r Amgueddfa yn ehangu'r gweithgareddau hyn ymhellach ac yn recriwtio Cyfarwyddwr Masnachol i fwrw ymlaen â hyn.

**Cefnogi Nodau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.**

Mae Amgueddfa Cymru'n gweithio gyda sefydliadau cenedlaethol Cymru i helpu'r genedl i gyflawni nodau Lles Deddf Cenhedlaethiadau'r Dyfodol (2015) ar gyfer addysg, iechyd a lles (megis drwy raglenni dementia), mynd i'r afael â thlodi, newid amgylcheddol (e.e.drwy fonitro rhywogaethau a tacsonomeg) a datblygiad economaidd. Mae ein Gweledigaeth ac Amcanion yn cyd-fynd â'r Nodau Lles.

**Ymgysyllt â mwy o ymwelwyr digidol**

Yn ddiweddar symudodd y wefan i ddefnyddio .wales /.cymru ac mae wedi'i ailgynllunio'n llwyr er mwyn gwella trefniant, e-fasnach, ac i ddarparu mwy o’r wybodaeth ddiweddaraf am Gymru a’i lle yn y byd. Mae'r wefan yn denu oddeutu 1.6 miliwn o ymweliadau y flwyddyn. Mae ymgysylltu ar gyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu 460% dros y tair blynedd diwethaf, ers gweithredu ein Polisi Cyfryngau Cymdeithasol a'n rhaglen hyfforddi ddiweddaraf.

Rydym hefyd wedi cyflwyno technoleg newydd ar gyfer amgueddfeydd yn y DU: ARchwilwr Amgueddfa Cymru, Profiad Rhith Realiti Cynyddol sy'n rhoi dehongliad gwell i'n hymwelwyr o rai o'n harddangosfeydd parhaol. O ganlyniad i adborth cadarnhaol a chanlyniadau ein gwerthusiad, mae'r profiad yn awr yn barhaol gyda syniadau ar gyfer datblygu’r cynnwys ar y gweill. Rydym hefyd yn cynllunio profiadau Rhith Realiti (VR) mewn dau o'n hamgueddfeydd. Wrth i’r Amgueddfa ganolbwyntio

ar brofiadau digidol newydd fel ffynhonell incwm posibl, rydym yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau i bennu mentrau digidol masnachol a'r ymwybyddiaeth weithredol i redeg y rhain.

Er mwyn gwella ein cyrhaeddiad a'n hygyrchedd ymhellach, rydym wrthi'n comisiynu profion hygyrchedd ar gyfer y wefan. Bydd hyn yn arwain at nifer o argymhellion o ran dyluniad, pensaernïaeth gwefannau a chynnwys a fydd yn cael eu gweithredu dros 2019-20. Mae'r Amgueddfa hefyd yn edrych ar anghenion mynediad yn yr orielau yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a sut y gall technoleg digidol helpu hyn. Byddwn yn adeiladu ar ein gwaith gyda iPads, ffonau a Rhith Realiti i wella hygyrchedd yn ein mannau corfforol.

**Rôl ryngwladol**

Mae gan Amgueddfa Cymru bartneriaethau hirdymor, wedi'u hategu gan Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda llywodraethau cenedlaethol ac amgueddfeydd yn Tsieina a Siapan. Mae gan yr Adran Gwyddorau Naturiol ei hun bartneriaethau hirdymor gyda 40 o amgueddfeydd tramor. Yn ogystal â benthyca sbesimenau a gwaith celf unigol, mae'r Amgueddfa wedi teithio arddangosfeydd cynhyrchu incwm mawr dros y degawd diwethaf i'r Gwlff, yr Unol Daleithiau a Siapan. Rydym yn y broses o derfynu Memoradwm gydag Amgueddfa Genedlaethol Iwerddon, i'w lansio yng Ngwanwyn 2019 ac rydym yn ehangu ein partneriaethau rhyngwladol, a fydd yn bwysicach fyth ar ôl Brexit i sicrhau bod Cymru'n parhau i chwarae rôl flaenllaw ar y llwyfan rhyngwladol.

**Partneriaethau gydag amgueddfeydd eraill yng Nghymru**

Mae'r Amgueddfa'n cydweithio'n agos â Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru, ac mae'n cefnogi amgueddfeydd lleol trwy fenthyciadau ac arddangosfeydd. Mae hyn yn cynnwys ein perthynas 10 mlynedd sy'n darparu arddangosfeydd gydag Oriel Y Parc ym Mharc Cenedlaethol Sir Benfro. Yn 2014, ar ôl absenoldeb o 20 mlynedd, cydweithiodd Amgueddfa Cymru a'r Ffederasiwn i gynnal cynhadledd flynyddol fwyaf arloesol a llwyddiannus Cymdeithas Amgueddfeydd y DU hyd yn hyn. Bydd y gynhadledd yn dychwelyd i Gymru yn 2020 neu 2021. Etifeddiaeth y gynhadledd oedd Gŵyl Amgueddfeydd Cymru, ac mae Amgueddfa Cymru yn parhau i weithio'n agos gydag amgueddfeydd lleol i gyflwyno'r Ŵyl bob blwyddyn ers hynny. Mae Amgueddfa Cymru hefyd yn cydweithio gyda'r Ffed ag eraill ar ddatblygu Strategaeth Amgueddfeydd newydd i Gymru.

**Adnewyddu To Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru**

Mae Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru ar gau ers mis Medi 2018 hyd at Hydref 2019 er mwyn cwblhau gwaith cadwraeth ar y to. Er fod yr Amgueddfa ar gau bydd staff yn parhau i gynnal rhaglenni gwaith ar gyfer ysgolion yn ystod y cyfnod hyn.

# Sut rydym yn cyflawni hyn. . . . Ein Hunaniaeth Unigryw

**Ein hymrwymiad i'r cyhoedd**
Mae ein Gweledigaeth **'Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau'** yn mynegi ein hymrwymiad at gyfiawnder cymdeithasol trwy gyfranogiad diwylliannol ac yn sylfaen i'n holl waith. Mae ymchwil yn sail i bob peth a wnawn, ac mae ystod eithriadol ein hymchwil ar sut mae ymwelwyr yn dysgu a chyfranogiad ddiwylliannol yn rhoi dyfnder dealltwriaeth i ni o werth cymdeithasol ac effaith ein partneriaethau cymunedol, ein harddangosfeydd a'n rhaglenni addysg.

**Rhyngddisgyblaethol**
Yr Amgueddfa yw'r amgueddfa genedlaethol fwyaf rhyngddisgyblaethol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys: Celf, Dylunio, Gwyddorau Daear, Gwyddorau Bywyd, Archeoleg, Hanes Cymdeithasol, Hanes Llafar, Hanes Diwydiannol, a Dysgu a Gwyddorau Cymdeithasol eraill.

**Dosbarthiad daearyddol**
Mae gan yr Amgueddfa safleoedd yng Ngogledd Orllewin Cymru (Amgueddfa Lechi, Llanberis), Gorllewin Cymru (Amgueddfa Wlân, Drefach), De Orllewin Cymru (Amgueddfa'r Glannau, Abertawe), a De Ddwyrain Cymru (Sain Ffagan ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Amgueddfa Lleng Rufeinig Caerllion, a Big Pit ym Mlaenafon), yn ogystal â'r Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol yn Nantgarw. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ag Amgueddfa Wrecsam ac Oriel y Parc, yn ogystal ag amgueddfeydd lleol ledled Cymru i sicrhau mynediad i'r casgliadau cenedlaethol.

**Casgliadau ac arbenigedd curadurol**
Mae gan Amgueddfa Cymru dros 5 miliwn o wrthrychau. O'r rhain mae tua 3 miliwn o sbesimenau yn y casgliad gwyddoniaeth naturiol a drwy'r rhain, mae'r Amgueddfa yn cynnal yr unig sail dystiolaeth genedlaethol ar gyfer newid yn yr hinsawdd yng Nghymru dros ganrifoedd a miloedd o flynyddoedd - adnodd hanfodol i'r genedl yn awr ac yn y dyfodol. Mae hefyd yn cadw'r archif archeolegol ar gyfer dros 50% o'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, cyfanswm o 1,275,000 o wrthrychau. Mae ganddi hefyd y casgliad mwyaf arwyddocaol o hanes cymdeithasol a hanes llafar yng Nghymru, sy'n cynnwys 396,823 o eitemau. Mae'r Amgueddfa hefyd yn cadw'r casgliadau cenedlaethol o gelf Cymreig ac Ewropeaidd, gan gynnwys rhai o'r gweithiau gorau yn y byd.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cyflwyniad**

1. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn cynrychioli 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r tri awdurdod parciau cenedlaethol a'r tri awdurdod tân ac achub yn aelodau cysylltiol.

2. Mae'n ceisio darparu cynrychiolaeth i awdurdodau lleol o fewn fframwaith polisi sy'n cynnal ymrwymiad i ddemocratiaeth leol ac atebolrwydd. Wrth wneud hynny, rhaid iddo fodloni blaenoriaethau ein haelodau a sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus lleol ar flaen y drafodaeth ar ddatblygu datganoli yng Nghymru a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

3. Mae CLlLC yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, Iaith Gymraeg a Chyfathrebu: *Cefnogi a Hyrwyddo'r Gymraeg: Ymchwiliad i'r cyd-destun deddfwriaethol, polisi ac ehangach.* Mae craffu ôl-ddeddfwriaeth ar Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011- i asesu llwyddiant a chyfyngiadau'r ddeddfwriaeth a'r effaith ac effeithiolrwydd Safonau'r Gymraeg i wella a chynyddu mynediad i wasanaethau Cymraeg, yn cael ei groesawu.

**Cefndir**

4. Tra bod CLlLC yn cefnogi awdurdodau i weithredu Safonau'r Gymraeg, nid yw'n casglu gwybodaeth ar weithredu'r Safonau gan awdurdodau unigol. Mae'n ofynnol i'r cyrff cyhoeddus hynny sy'n destun Safonau'r Gymraeg i lunio a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol, er nad yw'r fformat yn benodol ac felly byddai angen edrych ar bob un yn fanwl i benderfynu sut mae'r sefydliadau wedi ymateb i'r gofynion a osodwyd arnynt o dan Safonau'r Gymraeg.

**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

5. Roedd CLlLC a'i awdurdodau lleol sy'n aelodau yn cefnogi cyflwyno'r Mesur a'r egwyddorion oedd yn sail i'w amcanion ehangach. Yn yr un modd, roedd awdurdodau lleol yn cefnogi Safonau'r Gymraeg, a oedd yn deillio o'r Mesur ers iddynt ddod i rym ond roedd yna rywfaint o bryder ar y dechrau.

6. Roedd yna rywfaint o amheuaeth pa un a fyddai'r Safonau yn cael yr effaith a fwriadwyd neu a ddymunwyd. Roedd Awdurdodau yn cefnogi egwyddorion:

- Gwella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu derbyn gan y sefydliad yn Gymraeg;
- Cynyddu'r defnydd a wneir gan bobl o wasanaethau Cymraeg;
- Ei gwneud yn amlwg i sefydliadau beth maent angen ei wneud mewn perthynas â'r Gymraeg;
- Sicrhau bod yna lefel briodol o gysondeb o safbwynt y dyletswyddau a osodir ar gyrff yn yr un sectorau.

7. Roedd yna hefyd bryderon am gostau a gwerth am arian y buddsoddiad oedd yn ofynnol i gwrdd â'r Safonau. Am y rhesymau hyn roedd awdurdodau yn teimlo ar y dechrau bod y Cynlluniau Iaith Gymraeg presennol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ddull mwy effeithiol a chymesur i gyflawni'r amcanion a fwriadwyd.

8. Trwy gydol y cyfnod hwn roedd yna gonsensws cryf o fewn llywodraeth leol ar bwysigrwydd cynnal ac adeiladu ar yr ewyllys da tuag at y Gymraeg ar draws Cymru; gan gydnabod y gwahaniaethau ieithyddol, diwylliannol, economaidd-gymdeithasol ac ariannol rhwng awdurdodau lleol a'r angen i fod yn rhesymol a chymesur wrth ddatblygu blaenoriaethau a rennir.

9. Mae Safonau'r Gymraeg yn amrywiol a manwl iawn ac ni fu bob amser yn hawdd eu gweithredu ond mae llywodraeth leol wedi gweithio ar y cyd gyda Chomisiynydd y Gymraeg a'i swyddfa i ddatrys problemau a dod o hyd i atebion. Mae CLlLC ac awdurdodau unigol wedi cymryd rhan mewn perthynas adeiladol iawn gyda Chomisiynydd y Gymraeg ers i'r Safonau ddod i rym.

10. Yn fwy cyffredinol, mae llywodraeth leol a CLlLC wedi cefnogi Llywodraethau olynol Cymru, gyda'u hagwedd strategol at y Gymraeg.

11. Cafodd Iaith fyw:Iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012 i 2017 ei derbyn yn gadarnhaol iawn gan llywodraeth leol yn ogystal â tharged Cymraeg 2050 o greu 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae cefnogaeth barhaus a roddwyd i'r Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd drwy bartneriaeth ariannu arloesol CLlLC yn un enghraifft o'r ymrwymiad parhaus hwn.

12. Mae awdurdodau lleol hefyd yn cefnogi Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru ac wedi ymrwymo i dwf parhaus addysg Gymraeg a chyfrwng Cymraeg. Mae hyn wedi bod yn amlwg yn fwy diweddar ar ôl cwblhau'r rownd ddiwethaf o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg gan y 22 awdurdod a'r bartneriaeth barhaus rhwng llywodraeth leol a chanolog drwy'r Rhaglen Ysgolion ac Addysg y 21ain Ganrif a buddsoddi cyfalaf arall mewn ysgolion. Mae awdurdodau lleol wedi bod yn llunio Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ers 2011 ac maent yn darparu fframwaith defnyddiol i gynghorau gynllunio ar gyfer darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

13. Mae'r Gymdeithas yn credu mewn cynnal y consensws presennol ar yr iaith Gymraeg, drwy ei gadw allan o wleidyddiaeth pleidiau a chanolbwyntio'n gadarn ar fesurau ymarferol i gynyddu ei ddefnydd, yn hytrach na chreu fframwaith cyfreithloni sy'n canolbwyntio ar gydymffurfio yn y crynodeb. Mae CLlLC yn cefnogi pob ymdrech i gynyddu ansawdd darpariaeth a'r cyfleoedd i unigolion siarad a chael mynediad i'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd.

## Casgliad

1. Mae Llywodraeth Leol a CLlLC yn gwbl gefnogol i amcanion ac ethos Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, er gwaethaf yr heriau a gyflwynir gan Safonau'r Gymraeg i ddarparu gwasanaeth a'r cyd-destun ariannol anodd. Mae CLlLC yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at yr ymchwiliad hwn ac yn edrych ymlaen at weld canlyniadau'r gwaith.

1. Llwyddiannau a chyfyngiadau canfyddedig y ddeddfwriaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

1.1 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) a sefydlu'r Comisiynydd, o'n safbwynt ni fel Cyngor Sir, wedi cynnig mwy o gyfleoedd cadarnhaol nac o heriau negyddol i ni ar ein taith i hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir. Mae cael corff allanol gyda grym wedi rhoi sail gryfach i'n hymdrechion i ddarparu gwasanaethau dwyieithog ac i hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir. Mae'r asgwrn cefn deddfwriaethol y mae'r Mesur wedi cynnig wedi codi statws y Gymraeg ac wedi annog cysondeb a chodi safonau darpariaeth gwasanaethau dwyieithog yn gyffredinol.

Mae'n wir hefyd fod cael disgwyliadau wedi eu gosod arnom ni fel corff cyhoeddus mawr yn hytrach na'n bod ni'n gosod disgwyliadau arnom ni ein hunain (fel a ddigwyddai drwy'r Cynllun Iaith gynt) yn codi statws y disgwyliadau hynny.

Roedd y broses o sefydlu'r Safonau (er yn faith) yn addas i bwrpas gan ei fod yn rhoi cyfle i gorff gael mewnbwn, drwy drafod i ddechrau ac yna herio, rhai o'r Safonau a oedd yn fwy anodd eu gweithredu'n ymarferol.

Teimlwn ei fod yn hollbwysig cadw cryfder deddfol y Safonau. Byddai'n gam yn ôl i golli'r grym y tu ôl i'r ddeddf drwy fynd yn rhy bell tuag at gymell cyrff cyhoeddus yn hytrach na'u gorfodi. Mae sefydliadau wedi mynd trwy'r broses o ymateb i'r Safonau erbyn hyn ac er bod hynny wedi bod yn brofiad heriol mewn rhai achosion credwn ei fod wedi dechrau cael effaith cadarnhaol ar argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ac ymwybyddiaeth siaradwyr Cymraeg o'r gwasanaethau hynny.

1.2 Y prif heriau y cyflwynodd y ddeddfwriaeth i ni fel Cyngor Sir oedd bod materion bychan, (megis arwydd gyda gwall ieithyddol) oedd yn hawdd eu datrys yn gorfod mynd drwy broses hirfaith o ymchwiliad swyddogol gan y Comisiynydd. Roedd hyn yn achosi gwaith gweinyddol diangen i bawb. Rydym wedi cael rhai

achosion lle rydym wedi cydnabod diffyg ac wedi datrys y mater mewn cwestiwn cyn byddai'r ymchwiliad swyddogol wedi dechrau. Byddai'n dda cael modd gwahanol o archwilio materion fel hyn o'u cymharu â materion mwy cymhleth fel darpariaeth sydd ynghlwm a goblygiadau staffio er enghraifft.

1.3 Teimlwn hefyd fod y modd o fonitro cyflawniad y Safonau'n dibynnu'n rhy drwm ar gwynion. O'n profiad ni fel corff cyhoeddus, mân bethau mae pobl yn tueddu i gwyno amdanynt e.e. gwallau ar arwyddion, deunydd ysgrifenedig ayb yn hytrach nag argaeledd gwasanaethau sydd â goblygiadau eang. Awgrymwn fod angen mwy o fonitro cynnydd ar Safonau allweddol er mwyn ysgogi Safonau cyson cenedlaethol yn hytrach na rhoi sylw manwl i faterion dibwys sy'n deillio o gwynion lleol.

1.4 Prif wendid y modd y cafodd y ddeddf ei weithredu, a effeithiodd arnon ni fel corff cyhoeddus sydd â hybu a hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan o'i rôl, oedd bod y pwyslais ar osod Safonau a rheoleiddio wedi tynnu oddi ar y gwaith o hyrwyddo'r iaith yn genedlaethol. Mae hyn wedi bod yn wendid allweddol ers diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Fel y nodwyd eisoes, mae'r gwaith o reoleiddio'n hanfodol, ond mae hefyd angen ffocws ar waith hybu'r Gymraeg. Ar hyn o bryd nid oes arweiniad i gynnig arbenigedd cynllunio ieithyddol cenedlaethol, er mwyn cynghori a chynorthwyo lle nad oes arbenigedd mewn sefydliadau ar hyn o bryd. Yr hyn na chafwyd dros y cyfnod diwethaf ers y ddeddfwriaeth newydd yw arweiniad gan unrhyw gorff i gydlynu a chydgysylltu ymdrechion i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn genedlaethol ac arwain ar ffyrdd o gasglu data, mesur effaith, marchnata a'r meysydd oll lle byddai cydlyniad cenedlaethol yn fanteisiol.

1.5 Yn ogystal, teimlwn fod y strwythur cefnogi rhwng sefydliadau sector cyhoeddus wedi mynd ar goll yn ystod y cyfnod o gyflwyno'r Safonau. Byddai wedi bod yn hynod ddefnyddiol i gael rhwydwaith ar gyfer swyddogion ac aelodau Bwrdd Gweithredol/Cabinet er mwyn rhannu arferion a phrofiadau o roi'r Safonau ar waith. Gan nad oedd hynny mewn lle, teimlwn fod cyrff unigol wedi dyblygu llawer o'r gwaith o ddadansoddi Safonau a rheoliadau, creu deunyddiau ac llunio ymgyrchoedd a dulliau cyfathrebu newydd.

1.6 Mewn rhai achosion, rydym wedi canfod nad ydy'r ddeddfwriaeth bresennol fodd bynnag yn ddigon gwydn na phellgyrhaeddol i'n cynorthwyo ni i hyrwyddo'r iaith yn ein sir. Mewn materion yn ymwneud â'r sector preifat rydym wedi gorfod

troi at ddeddfwriaeth mewn meysydd eraill i'n galluogi i fynni defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau. Cyfeiriwn yn benodol at ddeddfwriaeth cynllunio a ddefnyddiwyd gennym ni i sicrhau fod busnesau mewn ardal Gymraeg yn defnyddio arwyddion dwyieithog. Nid oedd Mesur y Gymraeg (Cymru) yn ddigon i ganiatáu i ni wrthod arwyddion uniaith Saesneg. Yn y pen draw, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol oedd y ddeddfwriaeth hanfodol. Nid yw'n gwneud synnwyr i ni nad ydy Mesur y Gymraeg cyn gryfed â'r ddeddf honno parthed hyrwyddo'r Gymraeg.

2. Effaith ac effeithiolrwydd safonau'r Gymraeg wrth wella gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a gwella mynediad atynt

2.1 Mae nifer o'r Safonau sy'n rhy helaeth i'w rhestru fan hyn wedi bod o fudd i ni yn ein hymdrechion i wella gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Yn ein barn ni, nid oes digon o amser wedi mynd heibio i weld ydy'r safonau wedi gwella mynediad at y gwasanaethau hynny. Mae cryn waith i'w wneud o hyd i godi disgwyliadau pobl o'r gwasanaethau y gallant dderbyn er mwyn cynyddu'r galw amdanynt a'r defnydd ohonynt.

2.2 Un o'r Safonau sydd wedi achosi'r cynnydd mwyaf i ni fel awdurdod lleol yw'r safon sy'n gofyn i ni nodi sgiliau iaith ein staff. Mae ein holl brosesau casglu data wedi gwella er mwyn diweddaru'r wybodaeth hon.

2.3 Mae'r holl safonau darparu gwasanaeth wedi bod yn effeithiol yn ein herio i ddarparu gwasanaethau cyson safonol yn Gymraeg, er bod yna nifer sy'n codi cwestiynau sydd angen trafodaeth genedlaethol i'w datrys (e.e. sut mae darparu hyfforddiant Gymraeg/dwyieithog safonol).

2.4 Mae'r Safonau hybu hefyd wedi ein hysgogi i ffurfioli ein hymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y sir. Er ein bod ni fel sir wedi bod yn cymryd camau pwrpasol o ran hyrwyddo'r Gymraeg ers blynyddoedd bellach, tybiwn fod y safon hon wedi bod yn ysgogiad hollbwysig i rai siroedd i geisio atal y dirywiad yn nifer y siaradwyr yn eu siroedd.

3. <u>A yw'r fframwaith deddfwriaethol yn cefnogi'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd ohoni ynteu'n cyfyngu ar y gwaith hwn?</u>

3.1 Yn ein profiad ni, mae'r fframwaith deddfwriaethol wedi bod yn hanfodol i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg rydyn ni'n ei wneud y tu fewn a thu allan i'n corff. Teimlwn fodd bynnag fod angen adolygiad amserol o safonau er mwyn sicrhau bod cyrff yn symud ymlaen i ddarparu mwy o wasanaethau a chyrraedd safonau uwch o ddarpariaeth o hyd.

3.2 Mae angen, yn ein tyb ni, rhoi cyfle i'r Safonau sydd wedi eu gosod i ennill eu plwyf am fod angen amser i godi disgwyliadau'r cyhoedd ac ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd o'u hawliau. Mae angen i'r cyhoedd ddod i ddeall yr egwyddor fod ganddynt hawl cael gwasanaethau Cymraeg a mater i'r cyrff yw cyrraedd gofynion y Safonau.

3.3 Nid oedd gan system fonitro Bwrdd yr Iaith ddannedd, ac nid ydym am fynd yn ôl i natur 'wirfoddol' y Cynlluniau Iaith. Fodd bynnag, mae angen cefnogaeth ac arweiniad cenedlaethol law yn llaw â gorfodaeth yn enwedig mewn meysydd fel asesu effaith ieithyddol ar ddatblygiadau newydd.

Bethan Sayed

Chair

Culture, Welsh Language and Communications Committee

National Assembly for Wales

Cardiff Bay

CF99 1NA

9 January 2019

Dear Bethan

Thank you for your recent correspondence outlining concerns expressed by Equity South Wales and the Writers Guild.

While I note the points that have been raised with you, my view is that the BBC in Wales provides a number of platforms and opportunities for both Welsh-based writers and actors.

With regard to Welsh and Wales-based actors, the success of the co-productions *Hinterland/YGwyll, Un Bore Mercher/Keeping Faith* and *Craith/Hidden* are well documented. Produced by Welsh independent production companies, these companies search for actors through a number of channels including casting agents. The vast majority of the actors in these productions are either Welsh or based in Wales, and further series of *Hidden* and *Keeping Faith* are currently in production/pre-production.

*Casualty, Doctor Who* and *Pobol y Cwm* are produced by BBC Studios – the BBC's commercial arm - at Roath Lock Studios and use a mix of local (Cardiff-based) casting agencies as well as others further afield. They operate case by case with the aim of ensuring the person most suitable for the role gets the part. Having said this, programmes such as *Casualty* have made an active effort to recruit Welsh actors with names such as Owain Arthur and Catrin Mara appearing on the long-running series recently, among others.

In addition, our radio drama team in Wales uses a very large number of actors who live and work in Wales each year, primarily for BBC Radio 4.

A few notable examples from 2018 include *19 Weeks* which starred Eve Myles; four series of *Curious Under the Stars* starring Elis James, Ifan Huw Dafydd, Siw Hughes, Aimee Ffion Edwards and Eiry Hughes; *Das Kapital* which starred Kimberley Nixon; *Tracks: Chimera* which had guest roles for Eiry Thomas, Richard Elfyn, Rhodri Meilir and Carys Eleri. And we're about to embark on a new adaptation of the *Mabinogi* for Radio 3, which will have an almost entirely Welsh cast.

Given this scale of commitment, I hope you will understand that there are no quotas for employing Wales and Wales-based actors. We cast on merit.

Turning to writing, I suspect the BBC directly or indirectly supports more drama writing in Wales than any other organisation. In total, over 30 Welsh language writers are actively engaged in the production of *Pobol y Cwm,* while *Keeping Faith, Hinterland and Hidden* rely or relied predominately on Wales-based writers.

In addition, our network radio production team actively commission a range of Welsh writers. In 2018 established writers included Shon Dale Jones, Philip Palmer, Alan Harris and Gary Owen.

BBC Wales also runs - or supports - a number of initiatives to support new entrants into the industry.

Over the past two years, the BBC Writersroom programme based in Wales has been offering a number of initiatives for established and emerging Welsh writers.

In fact, since April last year Writersroom Wales has enabled 23 writers to get their first BBC credit. And we'll be launching a brand new Writers Residency opportunity in January, working in partnership with National Theatre Wales. The successful writer will spend twelve months working with the BBC and NTW to develop their writing skills for both broadcast and theatre.

We also work in partnership with other organisations in the industry to provide new opportunities across the media.

The *It's My Shout* training programme, for example, provides practical opportunities in television and film production targeting individuals and groups that would not normally have access to such opportunities. BBC Wales is a partner and sponsor of the scheme - along with S4C - providing mentoring and training both in front of and behind the camera for the participants.

Every summer, *It's My Shout* produces short 30 minutes films in Welsh and English, a number of which are broadcast on BBC Two Wales and are subsequently available on BBC iPlayer. Side-by-side there is also a scheme for emerging talent looking for documentary ideas. These are also broadcast on BBC Two Wales under the title, *New Voices from Wales.*

Additionally, the *Beacons* project – a partnership between BBC Wales and Ffilm Cymru - aims to shine a light on outstanding film talent from Wales, drawing attention to writers, directors and producers, helping them establish their credentials for feature production. The scheme supports between six and ten short films of up to 30 minutes in length and in English or Welsh every year.

I hope my response reassures you that the BBC takes its responsibility towards established and emerging Welsh actors and writers very seriously indeed. However, if you would like to discuss further I would be happy to meet with you.

Yours sincerely



Rhodri Talfan Davies

Director BBC Cymru Wales